**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/2320/22

Peredur Owen Griffiths, AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

12 Gorffennaf 2022

**BIL DEDDFAU TRETHI CYMRU etc. (PŴER I ADDASU)**

Annwyl Peredur,

Diolch ichi unwaith eto am ystyried Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) yn ystod Cyfnod 3.

Cyn trafodion Cyfnod 4 ar 12 Gorffennaf, rwyf am ddarparu eglurder ar sylw a wnes ynghylch Grŵp 4. Mae Gwelliant 10, a gyflwynwyd gan Peter Fox, yn darparu na ellir pleidleisio ar reoliadau cadarnhaol drafft a osodir gerbron y Senedd mewn perthynas ag ymestyn bywyd y pŵer gwneud rheoliadau yn adran 1 y Bil, cyn bod cyfnod o 28 diwrnod o leiaf wedi mynd heibio o'r dyddiad y'u gosodwyd.

Yn fy ymateb, nodais nad oedd cyfyngiad ar y cyfnod y mae'n rhaid iddo fynd heibio cyn y gellir pleidleisio ar reoliadau cadarnhaol 'gwnaed'. Roedd hyn yn gamgymeriad gan bod isafswm cyfnod gosod o 20 diwrnod ar gyfer rheoliadau cadarnhaol 'gwnaed', sydd wedi ei nodi yn y Rheolau Sefydlog.

Mae Rheol Sefydlog 27 yn berthnasol i offerynnau statudol cadarnhaol drafft ac offerynnau statudol 'gwnaed'. Mae Rheol Sefydlog 27.5 yn nodi ei bod yn cynnwys offerynnau statudol a osodwyd gerbron y Senedd na allant barhau mewn grym y tu hwnt i'r cyfnod a bennir yn y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i wneud yr offeryn, oni bai bod y Senedd yn eu cymeradwyo drwy benderfyniad (Rheol Sefydlog 27.5(iii)). Mae Rheol Sefydlog 27.7 yn nodi na ellir ystyried unrhyw gynnig mewn Cyfarfod Llawn oni bai fod naill ai 20 diwrnod wedi mynd heibio neu bod y pwyllgor priodol wedi adrodd ar yr offeryn statudol.

Dim ond os bydd y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i wneud yr Offeryn Statudol yn pennu amser gwahanol y caiff hyn ei ddatgymhwyso gan Reol Sefydlog 27.7A. Mae adran 4(7) o'r Bil hwn yn enghraifft o hyn, sy'n caniatáu 28 diwrnod ar gyfer rheoliadau cadarnhaol 'gwnaed' cyn y gellir pasio cynnig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fodd bynnag, rwyf am gadarnhau nad yw hyn yn newid fy marn ynghylch gwelliant Peter Fox. Mae'r cyfnod gosod o 20 diwrnod ar gyfer rheoliadau cadarnhaol drafft yn ddigonol at ddibenion y ddeddfwriaeth hon. Fel y nodais yn y Siambr yn ystod trafodion Cyfnod 3, ni ddaw rheoliadau cadarnhaol drafft i rym hyd nes y pleidleisir arnynt. Yn fy marn i, nid ydynt o ganlyniad yn codi'r un pryderon gweithdrefnol ac felly nid oes angen yr un lefel o ddiogelu â rheoliadau cadarnhaol 'gwnaed' arnynt.

Rwyf wedi gofyn am ychwanegu troednodyn eglurhaol at drawsgrifiad cofnod y trafodion ar gyfer trafodion Cyfnod 3.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government